Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
**Pennaeth/Head:**
Mr Matthew H T Evans
029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

16 Medi 2023

Annwyl Riant / Warcheidwaid,


*Traws Gwlad 2023*

**Pythefnos prysur:** Rydym wedi mwynhau pythefnos brysur gyda myfyrwyr yn ymgartrefu yn dda i fywyd yng Nglantaf. Roedd yn arbennig gweld y lefelau aruthrol o frwdfrydedd a chyfranogiad yn ein ras Traws Gwlad flynyddol yr wythnos hon ac egni byrlymus pawb a gymerodd ran. Yn ddiffuant hefyd, hoffem ddiolch i chi am eich cefnogaeth i sicrhau safonau uchel o wisg ysgol ac ymateb gwirioneddol gadarnhaol i'n cais am well prydlondeb, *diolch yn fawr i chi gyd!*

**Prydau Ysgol:** Mae trefniadau amser cinio a darpariaeth bwyd amser egwyl / clwb brecwast yn gweithio'n dda ac mae holl ddisgyblion Bl7 bellach wedi cael eu cofrestru ar y system. Os oes anawsterau o hyd wrth weld eich cyfrif *ParentPay* neu ychwanegu arian at eich cyfrif cysylltwch â Ms E Wiltshire ar Wiltshiree16@hwbcymru.net Bydd disgyblion Bl7 yn cael mynediad i'r ffreutur am yn ail wythnos : 7Illtud a 7Teilo wythnos 1 (yr wythnos nesaf) a 7Dewi & 7Dyfrig – wythnos 2. Bydd pob disgybl Bl7 yn cael mynediad dyddiol i'r ffreutur o 2 Hydref.

**Noson yn y Rasus, *Cyfeillion Glantaf*:** Yn anffodus bu'n raid i ni ohirio ein noson gymdeithasol er budd *Cyfeillion Glantaf* i Nos Wener 24 o Dachwedd. Gallwch sicrhau eich tocyn drwy *ParentPay*.

**Gwisg Ysgol a'n safle *Facebook* gyda gwisg ysgol am ddim:** Hoffwn ddiolch i rieni am eich cefnogaeth i gynnal safonau uchel o wisg ysgol. Fodd bynnag, mae nifer o ddisgyblion yn parhau i wisgo gemwaith i'r ysgol. Ni ddylai disgyblion wisgo sanau gwyn, mwclisau, breichledau na modrwyau a dylai clustdlysau fod yn stydiau bach yn unig. Cofiwch fod ein safle Facebook, gwisg ysgol am ddim ar gyfer rhannu neu ofyn am wahanol feintiau hefyd ar gael drwy'r ddolen hon: Ailgylchu Gwisg Ysgol Glantaf - Home | Mae'n braf gweld cymaint o weithgaredd ar y wefan brysur hon gyda dros 800 o ffrindiau / dilynwyr yn cynnig a rhannu gwisg (ac adnoddau), diolch yn fawr i'r holl aelodau!

**Deddf 20mya a hyrwyddo teithio iachus i'r ysgol:** Rydym yn croesawu deddf Llywodraeth Cymru ynghylch terfynau 20mya ar gyfer traffig yn y ddinas. Bydd y newid hwn, gobeithio yn hyrwyddo opsiynau Teithio Iachus ymhlith disgyblion (ac oedolion) ac felly rydym yn gwahodd disgyblion i gerdded neu seiclo i'r ysgol ddydd Llun 18 Medi a chynyddu y canran o fyfyrwyr sy'n teithio i'r ysgol ar feic. Ym mhob achos, dylai disgyblion wisgo helmedau a defnyddio lonydd beicio penodedig lle bo hynny'n bosibl. Amdani – gadewch i ni seiclo!

**Sesiynau adolygu rhifedd Bl11 ar gyfer arholiadau TGAU Tachwedd:** Cynhelir sesiynau adolygu wythnosol ar gyfer pob myfyriwr ym Mlwyddyn 11 gan yr adran Fathemateg hyd at eu harholiadau Rhifedd ym mis Tachwedd (6 a 8/11/23). Mae'r sesiynau hyn eisoes wedi dechrau ar nos Fawrth neu nos Fercher rhwng 3-4pm yn dibynnu ar eu tiwtor dosbarth. Hoffem ddiolch i chi ymlaen llaw am eich cefnogaeth i sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'r sesiynau adolygu gwerthfawr hyn.


*Pencampwyr Tenis: Isobel, Rosalind, Lilly ac Isla*

**Cyfathrebu / Ap Classcharts:** Rwy'n gobeithio eich bod wedi cofrestru'n llwyddiannus ar gyfer ein Ap Classcharts ar gyfer rhieni, sy'n rhwydd i'w ddefnyddio i bob rhiant / gwarcheidwad. Mae yna hefyd fersiwn disgybl o'r ap sy'n dangos gwybodaeth fyw am bresenoldeb, gwobrwyo a sancsiynau, aseiniadau gwaith cartref yn ogystal â rhannu pob llythyr a chyfathrebu gan yr ysgol. **Nodwch ogydd nad ydym bellach yn defnyddio ap rhieni SiMS ac mae'r holl gyfathrebu yn digwydd ar Ap Classcharts yn unig.** Os ydych chi'n profi anawsterau neu os nad ydych wedi derbyn cod, cysylltwch â Ms Emma Wiltshire: Wiltshiree16@hwbcymru.net Serch hynny, gofynnwn yn garedig am eich amynedd gan y gall gymryd diwrnod neu ddau i ymateb i geisiadau am god newydd. Rydym hefyd yn falch bod pob plentyn wedi derbyn *Llyfr Cyswllt* am y flwyddyn sy'n cynnwys ei amserlen, calendr ysgol, aseiniadau gwaith cartref, cysylltiadau a gwybodaeth ddefnyddiol. Gofynnwn yn garedig i chi lofnodi'r llyfr cyswllt yn rheolaidd.



**Gem Ryngwladol Cymru v Denmarc : Stadiwm Dinas Caerdydd 26ain Medi 7.15pm**
Bydd disgyblion Bl 7 a 12 yn aros ar ôl ysgol i fwynhau gweithgareddau Bydi, ac yna ar ôl swper, teithio i'r Stadiwm i weld y gêm. Byddai'n wych gweld pob disgybl ym Ml 7 a 12 yn ymuno â ni ar gyfer y weithgaredd bwysig yma. Bydd angen casglu eich plentyn o'r Stadiwm tua 9.30pm, manylion i ddilyn. Mae angen sicrhau eich tocyn erbyn **dydd Llun 18 Medi**. (Mae tocyn i'r gem yn unig ar gael ar ParentPay i ddisgyblion Bl 8-11)




**Teithiau preswyl Llangrannog bl 7 / Celf a Dylunio Bl11-13 i Lundain**
Nodwch ddyddiadau cwrs preswyl Llangrannog ar gyfer Bl7 (Hydref 2-6). Gofynnwn yn garedig i chi ddychwelyd y daflen wybodaeth felen sydd ei hangen arnom ar gyfer yr ymweliad. Ein bwriad yw y bydd pob disgybl yn mynychu'r cwrs a bydd mwy o fanylion yn cael eu hanfon atoch yn fuan. Bydd ymweliad deuddydd preswyl i fyfyrwyr Celf Bl11-13 â Llundain o 20-21 Medi.

**Nosweithiau Gwybodaeth Bl12, Bl10 ac 11**
Byddwn yn cynnal nosweithiau gwybodaeth i rieni trwy *Teams* ar y dyddiadau canlynol. Ymunwch â ni i drafod y flwyddyn sydd i ddod (Gwahoddiad cyfarfod ar *Teams* / Hwb eich plentyn):

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Llun, Medi 18 | Bl 12 | 6pm (cyfrwng Cymraeg) | 6.30pm (cyfrwng Saesneg) |
| Dydd Llun, Hydref 2 | Bl 11 | 6pm (cyfrwng Cymraeg) | 6.30pm (cyfrwng Saesneg) |
| Dydd Llun 16 Hydref | Bl 10 | 6pm (cyfrwng Cymraeg) | 6.30pm (cyfrwng Saesneg) |

**Taith Sgio**: Mae 3 lle gwag ar gyfer y daith sgio (Bl8-13 yn *Zell am See*, Chwefror 8-15) os yw eich plentyn â diddordeb. Cysylltwch â'r Dderbynfa i gofnodi eich diddordeb.

**Clyweliadau a gweithgaredd allgyrsiol:** Mae'n dda dychwelyd i'n rhaglen allgyrsiol ac erbyn hyn mae'r timau, corau a'r clybiau yn ail-ddechrau. Yr wythnos nesaf mae clyweliadau (Bl 8-13) ar gyfer ein perfformiad Drama eleni "*Un Bore Mawrth*" gyda manylion y clyweliadau ar *Google Classroom* neu gan aelod o'r Adran Ddrama. Mae corau hefyd yn ymarfer ar gyfer yr Wyl Gerdd Dant (11 Tach), ymunwch a mwynhewch! Rydym yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda chi yn ystod y flwyddyn i ddod, ac fel bob amser os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r ysgol a dilynwch ein cyfrif Trydar / X @Ysgol_Glantaf

Yn gywir,

Matthew H T Evans
Pennaeth
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf



*Gweithdy Cân gyda Only Boys Aloud*